# Rheoli a marchnata eich gwasanaethau yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio yn y diwydiannau creadigol a hyrwyddo eich hun a’ch gwasanaethau i gyflogwyr neu gontractwyr posibl.

Mae gofyn ichi feddu ar ddealltwriaeth dda o sut i hyrwyddo eich llwyddiannau, meithrin eich cysylltiadau a rhwydweithiau ymhellach, a sicrhau eich bod yn meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth ddiweddaraf.

Gellir defnyddio’r safon hon ynghlwm â phob rôl yn y diwydiannau sgrin ac mae hefyd yn berthnasol i rolau diwydiant creadigol ehangach fel enghraifft theatr, digwyddiadau byw, treftadaeth ddiwylliannol a galwedigaethau dylunio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod a dilyn strategaethau i hybu eich enw da proffesiynol a hyrwyddo'ch hun i gleientiaid posibl
2. sicrhau fod gennych chi systemau ar waith sy'n gymorth i adnabod cyfleoedd gwaith yn gynnar
3. cadw gwybodaeth am eich profiad, gwaith blaenorol, llwyddiannau a phryd rydych chi ar gael
4. ymchwilio asiantiaid posibl neu gynrychiolwyr eraill yn eich ardal os oes angen
5. sicrhau bod y cofnodion a'r cyfrifon yn gyfredol yn ôl yr angen
6. sefydlu a defnyddio systemau i reoli cyllidebau, treth, TAW a chofnodion eraill yn ôl yr angen
7. sefydlu a chynnal gwasanaethau effeithiol i gefnogi'ch hun fel gweithiwr llawrydd neu gontractwr tymor byr
8. cynllunio ymlaen llaw i drefnu a chynnal llif gwaith ac arian hyfyw
9. addasu i fodloni galwadau pobl eraill gan gynnal arddull gweithio personol, brand ac enw da
10. trin a thrafod amodau a thelerau sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant cynhyrchu a safonau'r diwydiant
11. amcan a chytuno ar gyfraddau ffi, amserlen a threuliau eraill realistig
12. pennu deilliannau perfformiad pendant
13. sicrha bod y cytundeb yn cynnwys manylion ynghylch telerau talu a'r dyddiad y mae taliadau'n ddyledus
14. cadarnhau bod manylion y cytundeb yn cyfateb i gytundebau a chadw'r cytundeb terfynol wedi'i llofnodi yn ddiogel

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwy yw'r prif fudiadau comisiynu yn eich maes arbenigedd chi a sut i gysylltu gyda nhw
2. sut i gynnal eich moeseg ac arferion proffesiynol, a bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y diwydiannau creadigol ac aml-gyfrwng
3. sut i ddangos i gleientiaid y byddai'n fanteisiol iddyn nhw gysylltu gyda chi ynghylch gwaith posibl
4. a fyddai asiant neu gronfa ddata doniau ar-lein yn gallu eich helpu i ddod o hyd i waith
5. sut i fanteisio ar gyfleoedd gwaith yn eich diwydiant chi
6. sut i ddarparu cyfraddau realistig ar gyfer ffioedd ac adnoddau megis llety a threuliau
7. sut i drin a thrafod amodau a thelerau yn unol â'r gofynion cyfreithiol, gofynion y cynhyrchiad a gofynion y diwydiant
8. pryd y bydd angen yswiriant arnoch chi a sut i'w drefnu
9. pryd a sut i gytuno ar daliadau fesul dipyn
10. sut i gynnal cysylltiadau a thrin a thrafod gyda chleientiaid posibl
11. sut i drin a thrafod a chytuno ar gytundebau cyfreithiol sy'n ymdrin ag incwm, amserlenni a deilliannau
12. y ffynonellau cyngor ynghylch cyflogaeth, yswiriant, rheoliadau treth a deddfwriaethau eraill i fusnesau bach
13. sut i gadw cyfrifon busnes syml (incwm, gwariant a llif arian) a sut i anfonebu a mynd ar ofyn taliadau hwyr
14. sut i sefydlu a rheoli cyllidebau personol a busnes
15. sut i gydnabod y gwahaniaeth rhwng penderfyniadau creadigol a busnes
16. sut i gyflawni gwaith cynllunio wrth gefn, pennu amserlen a chynllunio ar gyfer y dyfodol i gynnal llif gwaith ac arian hyfyw
17. sut i feithrin rhwydweithiau cymorth i fynd i'r afael â'r trafferthion sydd ynghlwm â gweithio ar eich liwt eich hun

SKSCMGS1

Rheoli a marchnata eich gwasanaethau yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cynhyrchu Sain (Ffilm a Theledu), Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu, Y Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau, Gweithwyr Proffesiynol Gemau, Gweithwyr Proffesiynol Cyfryngau Rhyngweithiol, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio;, Gwasanaethau Technegol a Dosbarthu (Ffilm a Theledu), Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Corfforol, Rolau Cymorth Technegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Cyffredinol y Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | rheoli; marchnata; gwasanaethau; diwydiannau creadigol; cyfrifon; cyllidebau; cytundebau; trin a thrafod; cyfradd ffi; diwydiannau creadigol; |